**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar Dachwedd 16eg, 2009 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2 y prynhawn.

YN BRESENNOL

| | |
|---|---|
| Y Cyng. S Frobisher (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. A M Jones (Is-Gadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. G James | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. P Jeffares | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng. J V Owen | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. T Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. W P Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. M Thomas | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); K Finch (Trysorydd); B Davies (Swyddog Monitro); C Hanks, P Claydon ac R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G Brandrick (Rheolwr Datblygu'r Gwasanaeth); R Fairhead (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); G Griffiths (Uwch Reolwr Gweithrediadau); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); J Brown (Rheolwr Cyllid); I Williams (Rheolwr Cefnogaeth y Grŵp Gweithredol); A Davies (Swyddog Cyswllt yr Aelodau).

Ymddiheuriadau:

| | |
|---|---|
| Y Cyng. M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. T Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng. W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| Y C Everett | Clerc i'r Awdurdod |

1 DATGANIADAU O FUDDIANT

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR FEDI 21AIN 2009

2.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Fedi 21ain 2009 yn gofnod gwir a chywir.

3 MATERION YN CODI

3.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Hanks y diweddaraf i'r aelodau am brosiect gorsaf dân Wrecsam. Roedd llythyr wedi cael ei anfon i'r Cynulliad yn cadarnhau rhan yr Awdurdod ac roedd y cynllun busnes

amlinellol arfaethedig wedi ei drefnu. Gwnaed gwaith i leihau maint y tir sydd ei angen, o 4 acer i 3 acer, ac ailedrychwyd ar y costau yn ôl pob metr sgwâr er mwyn sicrhau bod y rhan Tân ac Achub o'r prosiect yn aros o fewn y gyllideb o £5m.

4 YR OPSIYNAU O RAN Y GYLLIDEB 2010/11

4.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi'r diweddaraf i'r Aelodau am y pwysau ar y gyllideb yn 2010/11, a'r cynnydd a wnaed i gyllido'r pwysau hyn mewn ffordd heblaw cynyddu'r ardoll ar yr awdurdodau cyfansoddol.

4.2 Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân, a roddodd wybod i'r Aelodau fod y Cynulliad wedi cadarnhau y byddai'n ariannu Firelink am weddill 2009/10 ac am 2010/11. Y materion eraill y tynnwyd sylw atynt oedd:

4.3 Roedd yn anodd rhagweld y dyfarniad cyflog; amcangyfrifwyd 2.5% ar gyfer 2009/10. Fodd bynnag, ar derfyn y broses negodi, roedd diffoddwyr tân a staff yr ystafell reoli wedi cael 1.25% o ddyfarniad, a'r holl staff eraill wedi cael 1%. Felly, petai dyfarniad cyflog tebyg yn cael ei ddyrannu ar gyfer 2010/11, fe fyddai bron ddigon yn y gyllideb sylfaenol i'w ariannu. Teimlai'r Aelodau fod y dyfarniad cyflog yn debygol o fod yn debyg, os nad wedi ei rewi yn 2010/11.

4.4 Mae proses y gwerthuso swyddi ar gyfer holl staff yr ochr gefnogol ar fin cael ei chwblhau, a bydd y canlyniadau'n cael eu rhoi i'r staff yn y Flwyddyn Newydd. Teimlai'r Aelodau y dylid ymgorffori, yn y gyllideb sylfaenol, y pum swydd nad oedd yn rhan o'r nifer wreiddiol, ond a gyflwynwyd i leihau'r swm sy'n cael ei wario ar gontractwyr allanol.

4.5 Roedd angen y buddsoddiad refeniw o £541,000 i TGCh, fodd bynnag, esboniodd y Trysorydd mai'r unig ffordd bosib i liniaru'r costau, oedd cyflawni rhagor o waith i weld a ellid dyrannu unrhyw gostau i'r gyllideb gyfalaf.

4.6 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r Aelodau fod mater y cronfeydd wrth gefn bellach wedi ei ddatrys, a bod Gorchymyn wedi ei wneud i alluogi awdurdod tân ac achub i gadw cronfeydd wrth gefn. Ar hyn o bryd, nid oes gan yr Awdurdod gronfeydd wrth gefn sylweddol, ac ymddengys mai prin yw'r posibilrwydd i greu cronfeydd wrth gefn yn y tymor canolig.

4.7 **PENDERFYNWYD nodi'r pwysau uchod a allai fod yn rhan o gyllideb refeniw'r Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer 2010/11.**

5 ADOLYGIAD O'R ATGYFEIRIADAU DIOGELWCH TÂN YN Y CARTREF

5.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi gwybod i'r Aelodau am y cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref y mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi eu derbyn gan yr Awdurdodau Lleol ers 2007, a gwelliannau i'r trefniadau gweithio yn y dyfodol.

5.2 Rhoddodd yr Uwch Reolwr Diogelwch Tân wybod i'r Aelodau fod nifer yr atgyfeiriadau archwiliadau wedi cynyddu yn dilyn datblygu ac arwyddo

memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda phob Awdurdod lleol. Fodd bynnag, hyd yn hyn, roedd rhai atgyfeiriadau wedi eu gwneud trwy'r rhif rhadffôn heb gofnod mai atgyfeiriadau gan asiantaethau oeddent. Mae'r mater hwn bellach wedi ei ddatrys, a byddai'r System Rheoli Cofnodion yn sicrhau bod cofnod mwy cywir yn cael ei gadw o nifer yr Archwiliadau a gyflawnir o ganlyniad i atgyfeiriadau gan Awdurdodau Lleol.

5.3 Mae'r Uwch Reolwr Diogelwch Tân yn adolygu'r system atgyfeiriadau Archwiliadau, a'r memoranda cyd-ddealltwriaeth a arwyddwyd gan bob awdurdod lleol. Bydd y rheolwyr diogelwch sirol yn cyfarfod â Phrif Weithredwyr eu siroedd i drafod ffyrdd i wella'r ddeialog a'r cydweithredu gyda'r partneriaid mewn Awdurdodau Lleol, ac felly, i gynyddu nifer yr atgyfeiriadau am Archwiliadau.

5.4 Llongyfarchwyd pawb a oedd yn rhan o'r gwaith hwn gan yr Aelodau. Dywedodd y Cyng. L W Davies ei bod yn dda gweld mai Ynys Môn oedd wedi gwneud y nifer fwyaf o atgyfeiriadau. Bu llawer o gydweithredu rhwng y cyngor a'r Gwasanaeth, a diolchodd i Richard Fairhead a Huw Roberts am eu gwaith yn gwella'r modd y caiff diogelwch tân ei hyrwyddo yn Ynys Môn.

5.5 **PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi cynnwys yr adroddiad a'r mesurau a ddatblygir i gynyddu nifer yr atgyfeiriadau gan awdurdodau lleol, a gwella'r system atgyfeirio; a**

**(ii) cytuno i gais gael ei wneud i'r chwe awdurdod lleol iddynt adolygu eu perfformiad a'u cydweithrediad dan y protocol, a hynny gyda chymorth cyfarfod ar y cyd.**

6 RECRIWTIO I'R SYSTEM DYLETSWYDD YN ÔL Y GALW (*RDS* – RHAN AMSER)

6.1 Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd yn amlinellu dull arfaethedig ar gyfer recriwtio staff i'r system dyletswydd yn ôl y galw, sef staff sydd â'u prif gyflogaeth gyda sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus.

6.2 Atgoffwyd yr Aelodau gan y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Simmons am y materion yn ymwneud â recriwtio a chadw personél ar y System Dyletswydd yn ôl y Galw, ac yn enwedig yr heriau o ran darparu gofal tân mewn ardaloedd gwledig. Cynhelir cyfweliadau ymadael, ac mae unigolion yn tueddu i adael oherwydd rhesymau personol ac oherwydd gofynion eu prif gyflogwyr.

6.3 Yn Fframwaith Tân ac Achub ar gyfer Cymru 2008-2011, mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i weithio gyda'r Awdurdodau Tân ac Achub i annog rhagor o bobl i ymuno â'r System Dyletswydd yn ôl y Galw, ac mae wedi ymrwymo i dargedu partneriaid yn y sector cyhoeddus i'w hannog i ryddhau gweithwyr i weithio ar y System. Mae'r Cynulliad wedi sefydlu pwyllgor dan gadeiryddiaeth yr Ymgynghorydd Tân ac Achub, Paul Young, i adolygu'r System Dyletswydd yn ôl y Galw a byddant yn edrych ar y mater hwn fel rhan o'r adolygiad. Awgrymodd y Cyng. M Thomas y gellid cysylltu â'r CBI lleol i weld a allent roi cefnogaeth.

6.4 Yn ogystal â chynnig y Clerc i siarad gyda'r awdurdodau lleol, awgrymodd yr Is-Gadeirydd fod yr aelodau'n cyfarfod â'u Harweinwyr a'u haelodau gweithredol er mwyn tynnu sylw at y mater.

6.5 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

ADRODDIADAU RHAN II

7 Y RHAGLEN GYFALAF 2009/10

7.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi'r diweddaraf i'r Aelodau am sefyllfa gyffredinol rhaglen gyfalaf Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer ystadau. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar gwrdd â gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a mynd i'r afael â materion cydraddoldeb yn y gorsafoedd. Cynhaliwyd trafodaethau yn y Cynulliad ynglŷn â chyfraniadau ariannol tuag at y rhaglen hon. Er mwyn bod yn gymwys, rhaid i'r gwaith fod wedi ei gwblhau cyn diwedd Mawrth 2010.

7.2 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r Aelodau am y pwysau cynyddol ar gost cydymffurfio â rheoliadau allanol; ar ryw adeg yn y dyfodol, bydd raid gwneud newidiadau i'r gyllideb refeniw er mwyn adlewyrchu'r gost sydd o gynnal offer ac isadeiledd.

7.3 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo'r gyllideb ddiwygiedig ar gyfer y prosiect Gwahaniaethu ar sail Anabledd, a Chydraddoldeb.**

8 ADOLYGIAD O ARGAELEDD GOFAL SWYDDOGION

8.1 Derbyniodd yr Aelodau gyflwyniad ynglŷn â'r adolygiad o argaeledd gofal swyddogion. Roedd gweithgor y Cynllun Lleihau Risg wedi derbyn yr un cyflwyniad yn ei gyfarfod wythnos yn gynt, ac roedd yr Aelodau wedi gofyn iddo fod ar yr agenda ar gyfer y Panel Gweithredol.

8.2 Fel rhan o'r cynllun lleihau risg 2009/10, roedd penderfyniad wedi ei wneud i gynnal adolygiad o argaeledd gofal swyddogion. Roedd y staff eisoes wedi derbyn cyflwyniad tebyg ar yr adolygiad o argaeledd gofal swyddogion, ac wedi cael holiadur i'w lenwi'n ddienw er mwyn iddynt fod yn rhydd i roi eu barn. Roedd y cyrff cynrychioladol wedi eu hysbysu, ac roeddent yn rhan o'r broses.

8.3 Roedd y rhan fwyaf o'r Aelodau'n cefnogi'r adolygiad hyd yn hyn, ac yn edrych ymlaen at dderbyn adroddiad llawn yn y cyfarfod o'r Awdurdod ym mis Rhagfyr. Mynegodd y Cyng. J V Owen ei bryder am yr adolygiad.

8.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**